Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

## Archwilio hen berthynas mewn oes newydd

Hydref 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

## Archwilio hen berthynas mewn oes newydd

Hydref 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Casgliadau ac Argymhellion** .......... **7**

**1. Cyflwyniad** .......... **10**

Cylch gorchwyl .......... 11

Casglu tystiolaeth .......... 11

**2. Effaith Brexit** .......... **13**

Ein barn ni .......... 14

**3. Ymagwedd Llywodraeth Cymru** .......... **16**

Strategaethau Cymru-Iwerddon .......... 16

Ymwybyddiaeth a chyfranogiad .......... 17

Cynnydd ac adrodd .......... 18

Ymgysylltu dwyochrog rhwng llywodraethau Cymru ac Iwerddon .......... 20

Glasbrint addas? .......... 22

Ein barn ni .......... 24

Dealltwriaeth o ymagwedd strategaethau presennol .......... 24

Ymwybyddiaeth a chyfranogiad .......... 25

Monitro cynnydd ac adrodd .......... 26

Ymgysylltiad dwyochrog .......... 26

Glasbrint addas? .......... 27

**4. Cyfleoedd ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol** .......... **28**

Meysydd blaenoriaeth y tu hwnt i 2025 .......... 28

Ieithoedd .......... 28

Diwylliant a threftadaeth .......... 30

Addysg uwch a symudedd myfyrwyr .......... 31

Cysylltiadau economaidd a masnach ........ 32

Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ........ 33

Cydweithio ar draws deddfwrfeydd ........ 34

Ein barn ni ........ 36

Ieithoedd ........ 37

Diwylliant a threftadaeth ........ 37

Cysylltiadau masnach ac economaidd ........ 38

Cysylltiadau rhwng y Senedd a'r Oireachtas ........ 38

**5. Adnoddau ........ 40**

Diwedd cyllid yr UE yng Nghymru ........ 40

Cyllid ar ôl Brexit ........ 41

Horizon ........ 42

PEACE Plus ........ 44

Ein barn ni ........ 45

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ........ 47**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ........ 49**

Gwybodaeth Ychwanegol ........ 49

# Rhagair y Cadeirydd

Mae a wnelo'r cysylltiadau rhwng Cymru ag Iwerddon â mwy nag ehangder dŵr yn unig, a dyna fel y bu hi erioed: mae'n berthynas sydd wedi bodoli ers canrifoedd, o'r cyfnod cyn i'n moroedd gael eu nodi ar fapiau i'r heriau brys a wynebwn heddiw. O chwedlau a mythau cyffredin, datblygodd carennydd rhwng ein tiroedd sydd wedi gwrthsefyll prawf amser a masnach, ac er bod Brexit wedi cael effaith fawr ar sail y berthynas honno, mae ein Pwyllgor wedi canfod llawer o dystiolaeth sy'n dangos cryfder y carennydd parhaus hwnnw.

Ond yn union fel y mae'r berthynas rhyngom cyn bwysiced ag erioed, mae'r heriau wedi dwysáu hefyd. Mae Brexit wedi arwain at newidiadau a thensiynau, ac erys cwestiynau ynghylch sut y bydd gwaith ar y cyd rhwng y gwledydd yn cael ei ariannu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae angen eglurder ar y mater hwn, ac ar frys – oherwydd byddai'n resynus pe bai hyn yn gosod unrhyw derfynau ar y cysylltiadau agos rhwng y ddwy wlad neu'n arwain at golli'r cyfryw gysylltiadau hynny. Mae ein hadroddiad yn archwilio'r maes hwn yn fanwl, o ran sut mae'r diffyg eglurder hwnnw'n amharu ar fuddsoddiad a sut y gellid mynd i'r afael â'r cyfyngder hwn.

Er gwaethaf yr heriau hyn, cafodd ein Pwyllgor ei galonogi i ddysgu am yr ewyllys da, yr angerdd a'r brwdfrydedd mawr y mae cynifer o bartneriaid yn eu teimlo ynghylch cydweithredu parhaus ar draws Môr Iwerddon, ac yn wir i fod yn dyst uniongyrchol i hynny. O borthladdoedd i dechnoleg y môr, cydweithio ac arloesi fydd yn cynnig yr atebion i'r argyfyngau mwyaf enbyd sy'n wynebu poblogaethau ein gwledydd, ac o'n sgyrsiau gyda sefydliadau diwylliannol ac artistiaid, rydym wedi bod yn falch o weld bod y tapestri cyfoethog sy'n plethu ac yn cysylltu ein straeon cenedlaethol mor fywiog ag erioed. A all Cymru ac Iwerddon ddibynnu ar y diwylliant cyffredin hwn i sicrhau bod ein cysylltiadau economaidd ac ymchwil yn parhau'n gryf? Dywedodd Philip King wrthym fod masnach yn dilyn lle mae diwylliant yn arwain, gan roi her i'r rhai sydd â'r dasg o ddatblygu ein perthynas yn y dyfodol. Mae her i bob un ohonom yn hyn o beth, wrth gwrs, i beidio â chymryd y cysylltiadau hyn yn ganiataol, a bydd yn rhaid i lywodraethau, seneddau a sefydliadau cenedlaethol ein gwledydd ymdrechu i greu mwy byth o gysylltiadau ar yr adeg hollbwysig hon yn yr hanes a rennir rhyngom.

Bydd cadw'r sgyrsiau hynny i fynd yn hollbwysig. Fel y mae Seamus Heaney yn ein hatgoffa, os oes gennych chi'r geiriau, mae siawns bob amser y byddwch chi'n dod o hyd i'r ateb. Rhaid i'r gwaith yn y blynyddoedd sydd i ddod sicrhau bod cysylltiadau yn y dyfodol yn dibynnu ar fwy na siawns yn unig. Cawsom ein

calonogi o glywed gan gydweithwyr yng Ngholeg Prifysgol Dulyn fod diddordeb mewn cyfleoedd cydweithredu ar gael o hyd er bod rhai prosiectau wedi dod i ben, ac yn y modd hwn y byddem yn dymuno gweld ein gwledydd yn parhau i gydweithio: i sicrhau bod ein partneriaeth unigryw yn ffynnu trwy fuddsoddiad a brwdfrydedd o'r newydd. Nid daearyddiaeth yn unig sy'n ein gwneud ni'n gymdogion, a thrwy gysylltiadau ieithyddol, diwylliannol, ymchwil a masnachol, bydd cynnal y berthynas honno yn hollbwysig yn y blynyddoedd sydd i ddod.



**Delyth Jewell MS**
Cadeirydd, Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu casgliad Fframwaith Windsor a'r cyfleoedd posibl y mae'n eu datgloi, yn enwedig o ran cysylltiad y DU â Horizon....................... Tudalen 15

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu'r cytundeb cysylltu y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE mewn perthynas â Horizon, a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiadau blynyddol yn flaenorol a oedd yn nodi cyfranogiad Cymreig yn Horizon, ac yn amlinellu cyflawniadau a llwyddiannau. Yn sgil y datblygiad hwn, credwn fod cyfle i ailddechrau adrodd ar gyfranogiad Horizon yng Nghymru.......................................................................................................................... Tudalen 15

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r cyfleoedd posibl a gynigir gan gyfranogiad o'r newydd yn Horizon mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor. ........................................................................................................................................................ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ailddechrau cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cyflawniadau a wneir yn sgil cyfranogiad yn Horizon yng Nghymru. ........................................................................................................................................................ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu amlygrwydd y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar ei gwefan drwy ddwyn ynghyd ei strategaethau fel y maent yn berthnasol i Iwerddon mewn un lle, i gynnwys Fframwaith Môr Iwerddon, y Strategaeth Ryngwladol, y Cyd-ddatganiad, a gwybodaeth am rôl swyddfa Dulyn, erbyn diwedd Chwefror 2024. Dylid hefyd roi esboniadau clir o'r ffordd y mae pob llinyn yn berthnasol i'r lleill, a sut mae hyn yn cael ei gydlynu. ........................................................................................................................................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yng Nghymru a'i swyddfa yn Nulyn, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu strategaethau Cymru-Iwerddon, pennu amcanion clir a dangosyddion perfformiad allweddol.................................................................................... Tudalen 25

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys unigolion perthnasol sy'n arbenigo mewn cymdeithas sifil (gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg) yn y gwaith y bydd yn ei wneud mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol ac esbonio sut y caiff hyn ei wneud yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.................................... Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ei gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'i strategaethau Cymru-Iwerddon ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor. ........ Tudalen 26

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad blynyddol ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n nodi'r holl weithgarwch ar draws ei strategaethau gwahanol ac unrhyw weithgarwch ychwanegol nad yw'n rhan o strategaeth. Dylai hyn ddangos sut mae gweithgarwch rhwng Cymru ac Iwerddon ar draws ei strategaethau gwahanol yn cael ei gydgysylltu. Dylai'r adroddiad gynnwys dangosyddion perfformiad, canlyniadau tystiolaeth a chyrhaeddiad, a dylai werthuso cynnydd........ Tudalen 26

**Argymhelliad 8.** Dylai Fforwm Iwerddon-Cymru gynhyrchu adroddiadau gweithgaredd blynyddol, sy'n monitro cynnydd, yn crynhoi ei gyfarfodydd ac yn nodi'r camau nesaf. Dylai'r adroddiadau helpu i nodi'n well feysydd ar gyfer cymorth wedi'i dargedu yn y dyfodol a dylid eu cwblhau ar ôl cyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Hydref 2023........ Tudalen 26

**Argymhelliad 9.** Dylai Fforwm Iwerddon-Cymru wella tryloywder drwy gyhoeddi agendâu cyfarfodydd, cofnodion a manylion presenoldeb o'r cyfarfod nesaf ymlaen........ Tudalen 26

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Prif Weinidog roi rhagor o fanylion am sut yr hoffai Llywodraeth Cymru weld y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei wella, a dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU ystyried y cynigion hyn........ Tudalen 27

**Argymhelliad 11.** Lle mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ymagwedd debyg at berthnasoedd rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth, dylai gynnwys canfyddiadau'r adroddiad hwn o'r cychwyn cyntaf........ Tudalen 27

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu a'i defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl 2025. Dylai'r gwersi hyn gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru a'u hailgymhwyso i'w chydberthnasau rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth yn y dyfodol........ Tudalen 37

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd y Pwyllgor hwn, y Senedd, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â chydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i 2025. ........ Tudalen 37

**Argymhelliad 14.** Gan ei bod yn ymddangos nad oes modd gwahanu polisi cysylltiadau rhyngwladol oddi wrth bolisi masnach o ran y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y cânt eu cydgysylltu ar draws gwaith y llywodraeth. ....................Tudalen 38

**Argymhelliad 15.** Dylai Comisiwn y Senedd roi ei farn i'r Pwyllgor ar y posibilrwydd y bydd cynnydd yn nifer y pwyllgorau sydd gan BIPA, yn ogystal â'i ystyriaethau ar gynyddu nifer cynrychiolwyr y Senedd a llenwi'r sedd wag....................Tudalen 39

**Argymhelliad 16.** Dylai llywodraethau Cymru ac Iwerddon ymrwymo cyllid i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n gymesur â'u huchelgais y tu hwnt i 2025 yn ddi-oed, i roi sicrwydd i randdeiliaid ac i sicrhau y bydd cyn lleied o gostau cyfleoedd â phosibl....................Tudalen 45

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am Cymru Ystwyth, gan gynnwys ei ffocws ar ddatblygu cysylltiadau newydd yn hytrach na chadw'r rhai presennol a chynnwys rhanddeiliaid. ....................Tudalen 46

# 1. Cyflwyniad

**1.** Fel cymydog allanol ac Ewropeaidd agosaf Cymru, mae gan Gymru ac Iwerddon hanes o gydweithredu yn seiliedig ar gysylltiadau hanesyddol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd. Mae'r cydweithredu yn rhychwantu nifer o faterion gan gynnwys masnach, datblygu economaidd, addysg ac ymchwil, ynni, a newid hinsawdd, y mae rhywfaint ohono wedi'i ffurfioli yn strategaethau'r llywodraeth a rhaglenni ariannu.

**2.** Er ein bod yn croesawu ac yn cymeradwyo'r ymdrechion hyn yng ngoleuni'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu, rydym wedi synnu faint o'r cydweithio gwerthfawr, arloesol hwn nad yw'n cael ei gynnwys mewn adroddiadau rheolaidd. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn nodi dechrau'r broses o daflu mwy o oleuni ar y bennod bwysig hon yn hanes y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ac ar stori ryngwladol Cymru ei hun, a chaiff ein hargymhellion eu gwneud yn yr ysbryd hwn.

**3.** Y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yw perthynas ryngwladol strategol fwyaf datblygedig Llywodraeth Cymru â gwlad arall. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn destun cyfnod o newid sylweddol wrth i'r ddwy wlad addasu i ymadawiad y Deyrnas Unedig ("DU") o'r Undeb Ewropeaidd ("UE").

**4.** Mae'r awydd sylweddol ar y ddwy ochr i Fôr Iwerddon i gadw, parhau ac ymestyn cydweithrediad yn glir, ac mae hynny'n deillio o bwyslais newydd i gadw eu bondiau unigryw. Mae hyn yn darparu cyfleoedd cyffrous ar gyfer y dyfodol. Yr un mor glir i ni yw'r her o ariannu'r dyfodol hwn, yn enwedig yng ngoleuni'r her o ganfod cyllid i gymryd lle cyllid yr UE wrth i brosiectau ddod i ben.

**5.** O ystyried pwysigrwydd y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon i gysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, a'r heriau o lywio perthynas y DU â'r UE ar ôl Brexit, gwnaethom benderfynu cynnal ymchwiliad i asesu effeithiolrwydd ymagwedd Llywodraeth Cymru, ac a ellid ailgymhwyso'r model hwn ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol dwyochrog i wledydd a rhanbarthau eraill sy'n cael blaenoriaeth.

**6.** Yn olaf, mae'r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad hwn wedi dangos i ni fod gan ein Pwyllgor rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran gwella'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Yr adroddiad hwn yw cyfraniad cyntaf y Pwyllgor hwn tuag at wella'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Manylir ar ein camau nesaf drwy gydol yr adroddiad hwn.

## Cylch gorchwyl

**7.** Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gytuno i gynnal ymchwiliad i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Cyhoeddwyd y cylch gorchwyl[1] ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar 12 Rhagfyr 2022, gan nodi'r meysydd canlynol i'w hystyried:

- Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl Brexit.
- Yr ymagwedd bresennol at ymgysylltu dwyochrog rhwng Llywodraethau Cymru ac Iwerddon ac a yw'n addas i'r diben ar ôl Brexit.
- Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru (2021-2025) fel ymagwedd at ymgysylltu rhyngwladol.
- Ariannu prosiectau cydweithredu a chydweithio yn y dyfodol rhwng Iwerddon a Chymru.
- Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu rhwng Iwerddon a Chymru.
- Cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau seneddol rhwng y Senedd a'r Oireachtas.

## Casglu tystiolaeth

**8.** Er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 24 Chwefror 2023.[2] Cawsom 12 o ymatebion ysgrifenedig.

**9.** Gwnaethom ystyried tystiolaeth gan amrywiaeth o sefydliadau mewn wyth sesiwn tystiolaeth lafar rhwng 22 Mawrth 2023 a 10 Mai 2023.[3] Ceir amlinelliad o'r dystiolaeth ysgrifenedig a'r dystiolaeth lafar yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad hwn.

**10.** Buom hefyd ar ymweliad â Dulyn, Iwerddon rhwng 26 a 28 Ebrill 2023, i gwrdd â rhanddeiliaid Gwyddelig. Cyhoeddwyd nodyn yn crynhoi ein trafodaethau yn ystod yr ymweliad hwn ar 3 Hydref 2023.[4]

[1] Ymchwiliad y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[2] Ymgynghoriad y Pwyllgor: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[3] Cyfarfodydd y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
[4] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]

**11.** Ers i'n gwaith casglu tystiolaeth ddod i ben, rydym wedi cael gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru[5].

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd yr amser i gyfrannu at ein hymchwiliad ac i rannu eu profiadau â ni.

Ba mhaith linn ár mbuíochas ó chroí a ghabháil le gach uile dhuine a chuidigh lenár bhfiosrúcháin agus a roinn a dtaithí linn. Tá an léargas a fuair muid thar a bheith luachmhar.

**12.** Mae'n amlwg bod yr ymchwiliad hwn wedi ennyn diddordeb drwyddi draw a chredwn fod hyn yn dyst i gryfder y teimladau cadarnhaol ynghylch y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon. Rydym yn ddiolchgar iawn am hyn.

[5] Cyfarfodydd y Pwyllgor: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

# 2. Effaith Brexit

**13.** Dywedodd y rhan fwyaf o dystion wrthym fod Brexit wedi cael effaith sylweddol ar eu sectorau ac ar eu cydweithrediad trawsffiniol a bod gwaith parhaus wedi'i gwneud yn ofynnol iddynt addasu i ryw raddau. Roedd awydd clir gan dystion i gadw'r cysylltiadau a ddatblygwyd yn ystod aelodaeth y DU o'r UE.

**14.** Rydym yn siomedig ac yn pryderu am y ffaith y bydd cyfranogiad Cymru mewn rhywfaint o gydweithredu trawsffiniol yn dod i ben wrth i ffrydiau ariannu'r UE ddod i ben, heb fawr o obaith, os o gwbl, o weld cyfranogiad yn y dyfodol.

**15.** Dywedodd Conswl Cyffredinol Iwerddon (y "Conswl Cyffredinol") fod newid wedi cael ei weld eisoes yn sgil Brexit, ac nid oes amheuaeth y bydd yn newid ac yn ail-lunio'r berthynas rhwng Iwerddon a Chymru yn y blynyddoedd i ddod. Tynnodd sylw at ddiwedd rhaglenni Cydweithrediad Tiriogaethol Ewropeaidd ("rhaglenni INTERREG") Iwerddon-Cymru, sydd wedi creu cysylltiadau cryf unigryw â ffocws ar draws Môr Iwerddon ar lefelau lleol a sectoraidd ers 25 mlynedd.[6]

**16.** Ymrwymodd y Prif Weinidog a'r Conswl Cyffredinol i gadw cynifer o'r cysylltiadau â phosibl yn eu tystiolaeth, gan nodi bod gwaith yn mynd rhagddo i wneud hynny. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod swyddogion yn gweithio "i sicrhau nad yw'r llwyddiannau a geir … yn cael eu colli.[7]

**17.** Dywedodd y Conswl Cyffredinol wrthym mai nod Llywodraeth Iwerddon yw sicrhau bod y berthynas agos yn cael ei chynnal.[8] Ychwanegodd:

> *"… what we want to do is work together to make sure that all of those links we have, those people-to-people links, trade, business, culture, community, all of that, that that all keeps going as smoothly as possible, despite Brexit."*[9]

[6] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR07 Conswl Cyffredinol Iwerddon (Saesneg yn unig) [PDF 335KB]
[7] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[8] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR07 Conswl Cyffredinol Iwerddon (Saesneg yn unig) [PDF 335KB]
[9] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraff 158

**18.** Dywedodd y Conswl Cyffredinol wrthym hefyd fod Fframwaith Windsor yn rhoi cyfle ar gyfer gwell cysylltiadau a phartneriaethau cryfach.[10]

**19.** Dywedodd Cyngor Sir Penfro, waeth beth fo Brexit, y bydd Iwerddon yn parhau i fod yn bwysig i'r sir oherwydd ei hagosrwydd a'i chysylltiadau busnes. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau gan iddynt ddweud wrthym nad oes "dim byd sylweddol wedi'i roi ar waith" i gymryd lle'r rhaglenni presennol sy'n dod i ben.[11] Gwnaethant rybuddio:

> *"… mae risg, neu hyd yn oed tebygolrwydd, y bydd llawer o'r cydberthnasau sydd wedi'u sefydlu rhwng sefydliadau Cymreig a Gwyddelig trwy'r rhaglen yn dod i ben (…) mae gwagle bellach yn y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon ac felly nid yw'n glir o gwbl sut y mae mentrau trawsffiniol yn mynd i weithio, ac eithrio ar fenter sefydliadau unigol yng Nghymru ac yn Iwerddon."*[12]

**20.** Eglurodd rhai tystion fod absenoldeb strwythurau'r UE wedi gofyn am ffocws newydd a bwriadol ar y berthynas ddwyochrog i sicrhau nad oedd yn cael ei chymryd yn ganiataol. Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrthym fod "…angen hyd yn oed rhagor o ymdrechion" er mwyn i hyn barhau.[13] Roedd hyn wedi arwain at wneud penderfyniadau bwriadol ac wedi'u targedu, gan gynnwys datblygu cytundebau dwyochrog unigol, megis Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Amgueddfa Cymru gydag Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon.[14]

## Ein barn ni

**21.** Mae'n amlwg i ni fod Brexit wedi cael effaith ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon wrth i'r ddwy wlad addasu i'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE, ac y bydd yn parhau i gael effaith ar y cysylltiadau hynny. Rydym wedi clywed am amrywiaeth o newidiadau sy'n heriol ac yn anodd eu llywio; o'r gofynion ychwanegol a roddir ar artistiaid teithiol i derfynu cyllid yr UE. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau o sefydliadau yn cydweithio'n dda, wedi'u hysgogi gan angerdd cyffredin, arloesedd a ffocws o'r newydd. Mae'r llywodraethau hefyd

[10] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraff 158
[11] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR05 Cyngor Sir Penfro [PDF 392KB]
[12] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR05 Cyngor Sir Penfro [PDF 392KB]
[13] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR01 Celfyddydau Rhyngwladol Cymru [PDF 600KB]
[14] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 179

yn awyddus i barhau i gydweithio a bydd hyn yn hanfodol i gadw cysylltiadau dwyochrog.

**22.** Rydym yn rhannu ac yn adleisio pryderon y Prif Weinidog y gallai rhai cysylltiadau cydweithredol gael eu colli o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Rydym yn croesawu'r ymrwymiadau a wnaed gan lywodraethau Cymru ac Iwerddon na chaiff canlyniadau cadarnhaol a gafwyd hyd yma eu colli.

**23.** Rydym hefyd yn pryderu bod dyfodol y cydweithredu presennol mewn perygl os na fydd ymrwymiadau ariannu yn y dyfodol yn cyfateb i uchelgais llywodraethau. Rydym yn trafod y pryderon hyn ym Mhennod 5 ("Adnoddau") yr adroddiad hwn.

**24.** Ers i ni ddechrau ein hymchwiliad, mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar newidiadau i Brotocol Gogledd Iwerddon yn Fframwaith Windsor. Rydym yn cytuno â'r Conswl Cyffredinol bod Fframwaith Windsor yn cynnig cyfle i wella cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

**Casgliad 1.** Rydym yn croesawu casgliad Fframwaith Windsor a'r cyfleoedd posibl y mae'n eu datgloi, yn enwedig o ran cysylltiad y DU â Horizon.

**25.** Ar 7 Medi 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb ar gysylltiad y DU â rhaglen Horizon yr UE. Cyhoeddwyd hyn ar ôl i ni orffen ein trafodaethau ar y dystiolaeth a gawsom.

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu'r cytundeb cysylltu y cytunwyd arno rhwng y DU a'r UE mewn perthynas â Horizon,[15] a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiadau blynyddol yn flaenorol a oedd yn nodi cyfranogiad Cymreig yn Horizon, ac yn amlinellu cyflawniadau a llwyddiannau. Yn sgil y datblygiad hwn, credwn fod cyfle i ailddechrau adrodd[16] ar gyfranogiad Horizon yng Nghymru.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r cyfleoedd posibl a gynigir gan gyfranogiad o'r newydd yn Horizon mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru ailddechrau cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y cyflawniadau a wneir yn sgil cyfranogiad yn Horizon yng Nghymru.

---

[15] Llywodraeth y DU: UK joins Horizon Europe under a new bespoke deal (Saesneg yn unig) – 7 Medi 2023
[16] Llywodraeth Cymru: Horizon 2020: astudiaethau achos ac adroddiadau – 15 Gorffennaf 2022

# 3. Ymagwedd Llywodraeth Cymru

## Strategaethau Cymru-Iwerddon

**26.** Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru at gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon wedi'i nodi mewn gwahanol strategaethau a chynlluniau. Disgrifir y fframwaith ar gyfer y berthynas hon ym mharagraffau 27-31 isod.

**27.** Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru[17] ar gyfer y cyfnod 2020-2025 ("y Strategaeth") yn nodi bod y berthynas ag Iwerddon yn flaenoriaeth. Mae'r Strategaeth yn datgan y bydd ymdrechion yn canolbwyntio ar fwy o gydweithredu a gweithgareddau llywodraethol sydd o fudd i Gymru yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Mae Iwerddon yn rhan o bedwar Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth ar alltudion, perthnasoedd sy'n cael blaenoriaeth, diplomyddiaeth a phŵer meddal, ac allforion.[18]

**28.** Mae swyddfa dramor Llywodraeth Cymru yn Nulyn ("Swyddfa Dulyn") yn hyrwyddo uchelgeisiau a nodau'r Strategaeth. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adroddiad Rhwydwaith Tramor Blynyddol Llywodraeth Cymru[19], ac yn nogfen Cylchoedd Gwaith y Swyddfa Ryngwladol[20].

**29.** Mae llywodraethau Cymru ac Iwerddon hefyd wedi arwyddo Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd[21] ar gyfer y cyfnod 2021-2025 ("y Cyd-ddatganiad"). Mae'r Cyd-ddatganiad yn amlinellu'r uchelgeisiau a'r cynlluniau ar gyfer cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon a sut y bydd y llywodraethau'n cydweithredu ar chwe maes polisi a rennir wedi'u hategu gan 45 o weithgareddau a nodir mewn cynllun gweithredu. Mae Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd a Swyddfa Dulyn yn gyfrifol ar y cyd am ei gyflawni.

**30.** Mae'r Cyd-ddatganiad yn ymrwymo'r ddwy lywodraeth i gynnull Fforwm gweinidogol Iwerddon-Cymru blynyddol. Nod y Fforwm hwn yw ymgysylltu â rhanddeiliaid gwleidyddol, economaidd ac ehangach er mwyn meithrin

[17] Llywodraeth Cymru: Strategaeth ryngwladol i Gymru – 14 Ionawr 2020
[18] Llywodraeth Cymru: Cynlluniau gweithredu rhyngwladol – 14 Rhagfyr 2020
[19] Llywodraeth Cymru: Rhwydaith Tramor: Adroddiad blynyddol 2022 i 2023 – 19 Mai 2023
[20] Llywodraeth Cymru: Cylchoedd Gwaith Rhwydwaith Swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru – Tachwedd 2020 [PDF 189KB]
[21] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 – 1 Mawrth 2021

perthnasoedd yn ogystal â chyfnewid safbwyntiau polisi, rhannu dysgu ac adeiladu cydweithredu mewn meysydd y mae'r cyfrifoldeb amdanynt wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Bwriedir iddo hefyd gryfhau'r berthynas ehangach rhwng Iwerddon a Chymru. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Iwerddon-Cymru yng Nghaerdydd ym mis Hydref 2021[22]. Cynhaliwyd yr ail fforwm yn Nulyn a Chorc ym mis Hydref 2022[23].

**31.** Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Môr Iwerddon[24] ("y Fframwaith") i arwain a dylanwadu ar gamau gweithredu i gynyddu cydweithredu economaidd ar draws gofod Môr Iwerddon. Mae'r Fframwaith yn nodi nad oes ganddo statws ffurfiol. Fodd bynnag, ei nod yw darparu cyfeiriad strategol yn y tymor byr, a llwybr at nodau tymor canolig i gynnal y cysylltiadau a'r rhwydweithiau a ddatblygir o dan aelodaeth Ewropeaidd gyffredin. Mae canllawiau'r Fframwaith hefyd yn nodi y bwriedir ategu'r holl bolisïau, strategaethau a rhaglenni perthnasol, gan gynnwys y Cyd-ddatganiad a phrosiectau sydd bellach yn cael eu cwblhau o dan raglen INTERREG (rhaglen gyllido i hyrwyddo a chefnogi cydweithredu dros ffiniau tir a morol i mewn ac allan o'r UE).[25]

## Ymwybyddiaeth a chyfranogiad

**32.** Clywsom gan randdeiliaid allweddol a oedd â lefelau gwahanol o ymwybyddiaeth o'r strategaethau a ddisgrifir uchod. Canolbwyntiodd y rhan fwyaf o'r tystion ar y Cyd-ddatganiad, a'u rhan yn y broses o'i gyflawni. Roedd y rhai sy'n gweithio'n agos gyda'r llywodraethau i gyflawni'r Cyd-ddatganiad yn canmol y cymorth a ddarparwyd ac yn gadarnhaol ynghylch eu profiadau.

**33.** Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym fod ei rôl yn Fforwm Iwerddon-Cymru wedi hwyluso ei chydweithrediad ac wedi cryfhau ei pherthynas ag Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon a Chymdeithasau Amgueddfeydd Iwerddon.[26] Yn ôl Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, mae'r gefnogaeth y mae'r sefydliad yn ei chael gan y ddwy lywodraeth o fudd i sector y celfyddydau wrth feithrin cysylltiadau

[22] Llywodraeth Cymru: Cyfarfod Fforwm Iwerddon-Cymru: 22 Hydref 2021 – 22 Hydref 2021
[23] Llywodraeth Cymru: Cyfarfod Fforwm Iwerddon-Cymru: 14 Hydref 2022
[24] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Môr Iwerddon: canllawiau – 21 Chwefror 2023
[25] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Môr Iwerddon: canllawiau – 21 Chwefror 2023
[26] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 179

rhwng Cymru ac Iwerddon ac mae'n croesawu'r dull gweithredu y mae cyd-strategaeth bwrpasol yn ei gynnig.[27]

**34.** Fodd bynnag, dywedodd rhai rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro[28] a Chomisiynydd y Gymraeg[29], wrthym nad oeddent yn gysylltiedig â datblygu'r Cyd-ddatganiad a'i roi ar waith.

**35.** Nododd Cyngor Sir Penfro, er bod y Cyd-ddatganiad yn darparu "sylfaen gref" ar lefel genedlaethol, mae'n "methu â chynnig unrhyw gefnogaeth wirioneddol i sefydliadau Cymreig sy'n dymuno hybu cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon". Ychwanegodd fod diffyg sylwedd i rai o'r ymrwymiadau a nodir yn y Cyd-ddatganiad oherwydd nad oedd awdurdodau lleol yn gallu cynnig y cymorth a awgrymwyd.[30]

**36.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, fod "…lle i fwrw'r rhwyd yn ehangach a chynnwys rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Comisiynwyr Iaith annibynnol y ddwy wlad…" yn natblygiad y Cyd-ddatganiad. Nododd Comisiynydd y Gymraeg nifer o feysydd blaenoriaeth y gellid eu datblygu ymhellach, gan gynnwys sicrhau bod iaith, a chynllunio ieithyddol, yn cael eu hystyried yn "…rhan greiddiol o'r maes blaenoriaeth Addysg ac Ymchwil…" er mwyn cryfhau seiliau academaidd y ddwy wlad.[31]

**37.** Yn ysgrifenedig, yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd y Prif Weinidog wrthym, pe baem yn datblygu cytundeb pellach, y gallem fod yn siŵr y byddwn yn ymgysylltu ac yn cynnwys rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau fel yr ydym wedi'i wneud wrth gyflawni'r cynllun [y Cyd-ddatganiad presennol].[32]

## Cynnydd ac adrodd

**38.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Conswl Cyffredinol fod y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at weithredu'r Cyd-ddatganiad yn gryf ac yn ddeinamig. Dywedodd,

[27] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR01 Celfyddydau Rhyngwladol Cymru [PDF 600KB]
[28] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR05 Cyngor Sir Penfro [PDF 392KB]
[29] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraff 55
[30] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR05 Cyngor Sir Penfro [PDF 392KB]
[31] Ymateb i'r ymgynghoriad WIR06 Comisiynydd y Gymraeg [PDF 628KB]
[32] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]

> *As of late 2022, almost 80 per cent of the commitments made have been either fully completed (10 per cent) or well advanced (70 per cent). Early progress has been made on the remaining 20 per cent of actions."*[33]

**39.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod "…cynnydd wedi bod yn erbyn pob un o'r chwe maes cydweithredu a nodir yn y Datganiad…" a chyfeiriodd at enghreifftiau o'r gwaith a wnaed.[34]

**40.** Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn dilyn pob Fforwm Iwerddon-Cymru blynyddol sy'n rhoi crynodeb lefel uchel o'r trafodaethau a rhestr o'r gweinidogion a oedd yn bresennol. Er i'r Prif Weinidog ddweud wrthym mewn tystiolaeth ysgrifenedig fod Fforwm blynyddol Iwerddon-Cymru yn gyfle i nodi'r cynnydd yn erbyn cyflawni nodau ac amcanion y Cyd-ddatganiad[35], nid yw manylion y gweithgaredd monitro hwn ar gael i'r cyhoedd.

**41.** Cawsom dystiolaeth hefyd a oedd yn awgrymu bod mwy o swyddogion a rhanddeiliaid yn mynychu Fforwm Iwerddon-Cymru nag sydd wedi'u dogfennu yn y datganiadau ysgrifenedig. Ar 23 Mai 2023, dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS, wrth y Cyfarfod Llawn fod y Prif Weinidog wedi gwahodd meiri Manceinion Fwyaf a Lerpwl i fynychu Fforwm Iwerddon-Cymru.[36]

**42.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r Fframwaith fel, "… clymblaid y rhai parod". Dywedodd fod rhanddeiliaid yn cael eu hannog i gymryd camau gweithredu'n wirfoddol, megis cynnal digwyddiadau, sefydlu rhwydweithiau neu gydweddu buddsoddiadau[37]. Cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y Fframwaith, neu rannau ohono, yn eu tystiolaeth, ond nid oes rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff ei weithredu'n ymarferol, ei effaith a'i fuddion ar gael i'r cyhoedd.

**43.** Gosodir targedau blynyddol ar gyfer cyflawni'r Cyd-ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yng Nghaerdydd. Mynegodd rhai rhanddeiliaid y farn y byddai dangosyddion perfformiad ar gyfer canlyniadau diriaethol yn fuddiol wrth fesur

---

[33] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR08 Conswl Cyffredinol Iwerddon (Saesneg yn unig) [PDF 177KB]
[34] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[35] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[36] Cofnod y Trafodion: Cyfarfod Llawn - 23 Mai 2023, paragraff 332
[37] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Môr Iwerddon: canllawiau – 21 Chwefror 2023

cynnydd yn erbyn cyflawni'r Cyd-ddatganiad. Cadarnhaodd Amgueddfa Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru eu bod yn adrodd yn ôl ar dargedau a osodir ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru[38].

## Ymgysylltu dwyochrog rhwng llywodraethau Cymru ac Iwerddon

**44.** Dywedodd tystion wrthym sut yr oedd y ddwy lywodraeth wedi cynyddu eu hymgysylltiad gwleidyddol a swyddogol yn rhagweithiol yn absenoldeb cyswllt a hwyluswyd gan strwythurau ffurfiol yr UE. Siaradodd y Prif Weinidog a'r Conswl Cyffredinol am fanteision datblygu cysylltiadau anffurfiol a rhyngbersonol a chyswllt rhynglywodraethol uniongyrchol o gymharu ag ymgysylltu anuniongyrchol drwy Lywodraeth y DU.

**45.** Dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod Fforwm Iwerddon-Cymru yn helpu i ymrwymo i ymgysylltu cyson. Dywedodd ei fod yn darparu cyfnewidiad blynyddol lle mae materion yn cael eu trafod a lle yr adroddir arnynt, a bod gwaith yn deillio o'r trafodaethau hynny[39]. Yn yr un modd, dywedodd y Conswl Cyffredinol wrthym:

> *"We've had a range of exchanges at ministerial level, including the First Minister coming to Ireland last October. We've had co-operation across all areas of focus within the Shared Statement since I've been here, and I think progress is—it's all going really well."*[40]

**46.** Yn ystod ein hymchwiliad, dysgom hefyd am secondiad swyddog o Lywodraeth Cymru i Adran Materion Tramor Llywodraeth Iwerddon gyda'r diben o wella cymorth i alltudion drwy rannu dysgu o ran polisi ac arfer gorau.

**47.** Amlygwyd y secondiad gan y Prif Weinidog, y Conswl Cyffredinol a swyddogion mewn tystiolaeth fel arfer da y maent yn bwriadu bwrw ymlaen ag ef y tu hwnt i 2025. Dywedodd y Conswl Cyffredinol wrthym ei fod:

> *"… a great opportunity to look at our emigrant support programme, which is a funding programme we have for support to the Irish community abroad, and it funds a variety of different things. Some of*

[38] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Gorffennaf 2022, paragraffau 230-231
[39] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Gorffennaf 2022, paragraff 52
[40] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Gorffennaf 2022, paragraff 113

> *the things it funds are kind of in the nature of social projects, organisations that support vulnerable members of the Irish community abroad, but some of the work it does is more to support Irish culture and Irish heritage and Irish communities, keeping that culture and heritage alive in other parts of the world, and, more broadly, our approach to our diaspora is very inclusive…*
>
> *… the Welsh official who is in the Irish abroad unit I think is getting a really good sense—I hope is getting a really good sense—of how our diaspora policy operates… he's seeing all of that from the inside."*[41]

**48.** Dywedodd y Prif Weinidog fod adroddiad yn cael ei baratoi ar y secondiad i ddysgu gwersi o'r profiad a fydd yn cael eu defnyddio i fynd â'r broses ddysgu yn ei blaen yn y dyfodol.[42] Rhoddir copi o hwn i'r Pwyllgor pan fydd yn barod.[43]

**49.** Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd fod awydd cryf am gydweithio rhwng ein llywodraethau yn y dyfodol, a bod cyfleoedd pellach i gysylltu swyddogion ar draws meysydd polisi eraill ar faterion o ddiddordeb cyffredin, megis cynllunio morol.[44]

**50.** Mae'r llywodraethau hefyd yn cyfarfod yn y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC), sefydliad rhynglywodraethol a sefydlwyd yn 1999 o ganlyniad i Gytundeb Gwener y Groglith. Crëwyd y BIC i hyrwyddo ymhellach berthnasoedd cadarnhaol, ymarferol ymhlith ei aelodau, ac i ddarparu fforwm ar gyfer ymgynghori a chydweithredu. Mae gan y Cyngor wyth aelod-weinyddiaeth, gan gynnwys Llywodraethau Iwerddon a'r DU, sy'n cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i weithio ar faterion o ddiddordeb cyffredin, gan gynnwys pan fydd penaethiaid gweinyddiaethau a gweinidogion yn dod ynghyd mewn uwchgynadleddau chwe-misol.

**51.** Wrth sôn am y BIC, dywedodd y Prif Weinidog:

---

[41] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraffau 139-140
[42] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 10 Mai 2023, paragraff 116
[43] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]
[44] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 10 Mai 2023, paragraffau 116-118

> *"... when it's good, it's genuinely good, but it isn't good always."*[45]

**52.** Ychwanegodd:

> *"... in difficult times, has provided a forum where the Irish Government and the UK Government have been able to come together and speak. I'm very keen we continue to invest in it, and to do more with BIPA [the British-Irish Parliamentary Assembly] alongside the BIC as well."*[46]

**53.** Dywedodd y Prif Weinidog wrthym, er bod cyswllt rhynglywodraethol ffurfiol yn bwysig, roedd y cyswllt anllywodraethol, megis gweithgarwch yn ymwneud â busnes, y celfyddydau a chwaraeon, yr un mor bwysig.[47]

**54.** Dywedodd y Conswl Cyffredinol wrthym am bwysigrwydd adeiladu cysylltiadau ledled Cymru, ac i beidio â chymryd safbwynt sy'n canolbwyntio'n ormodol ar Gaerdydd. Teimlai ei bod yn rhan o'i rôl i geisio dod o hyd i'r cysylltiadau hynny, eu dal a'u cefnogi.[48]

## Glasbrint addas?

**55.** Gofynnwyd i dystion a ellid ystyried y Cyd-ddatganiad fel glasbrint addas ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru a pherthnasoedd eraill sy'n cael blaenoriaeth. Dywedodd tystion wrthym, er y gallai fod yn lasbrint o'r fath, ei bod yn bwysig teilwra ymagweddau at bob perthynas unigryw a chysylltu adnoddau priodol â hi.

**56.** Mynegodd Siambrau Cymru y farn y gellid defnyddio'r Cyd-ddatganiad fel model sylfaenol, ond nododd fod gan bob gwlad ei math ei hun o wahanol gyd-destun a sectorau penodol.[49]

[45] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 10 Mai 2023, paragraff 110
[46] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 10 Mai 2023, paragraff 110
[47] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 10 Mai 2023, paragraffau 46-47
[48] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol: 30 March 2023, paragraff 15
[49] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 6 Mawrth 2023, paragraff 116

**57.** Eglurodd Prifysgolion Cymru fod ei raglen Cymru Fyd-eang wedi mabwysiadu dull wedi'i dargedu o ddatblygu 'system i system' i ymateb i ofynion penodol gwledydd a rhanbarthau partner. Dywedodd Prifysgolion Cymru y gallai'r model a ddarperir gan y Cyd-ddatganiad weithio, ond bod angen iddo gael digon o adnoddau i hwyluso perthnasoedd a gweithgarwch.[50]

**58.** Cytunodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ac Amgueddfa Cymru fod yr hyn a ddysgwyd o'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon wedi cael effaith gadarnhaol ar feysydd ehangach o gydweithio rhyngwladol megis UNESCO, a'r Cenhedloedd Unedig ar Ddegawd Rhyngwladol Ieithoedd Brodorol[51]. Dywedwyd wrthym hefyd fod Cymru yn arwain y byd yn ei gwaith gydag Iwerddon a bod llawer i'w ddysgu oddi wrth ein gilydd.

**59.** Dywedodd Urdd Gobaith Cymru fod y Cyd-ddatganiad yn agor drysau ac yn galluogi partneriaethau i ddatblygu, ond y dylai fod yn ddogfen fyw i adlewyrchu bod partneriaethau newydd yn cael eu creu ac yn esblygu'n naturiol dros amser[52].

**60.** Yn ôl Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon, mae'r gwaith dwyochrog sy'n deillio o'r Cyd-ddatganiad yn gwthio ffiniau.[53] Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym fod y Cyd-ddatganiad wedi bod o fudd o ran datblygu cysylltiadau diplomyddol a rhoi ffocws i drafodaethau â gweinidogion.[54] Pwysleisiodd hefyd fod cyfleoedd i edrych ar berthnasoedd rhyngwladol dros gyfnod hwy o amser. Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"Mae'n cymryd amser i adeiladu partneriaethau sydd yn bartneriaethau gyda phwrpas, yn hytrach na phartneriaethau jest achos eich bod chi'n moyn partneriaethau, a phartneriaethau sy'n gallu arwain at impacts go iawn."*[55]

[50] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 111
[51] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 247
[52] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraffau 177 a 220
[53] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[54] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 231
[55] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 255

**61.** Argymhellodd Coleg Prifysgol Dulyn ("UCD") y dylai llywodraethau Cymru ac Iwerddon adeiladu ar eu gwaith ym maes addysg, ymchwil ac arloesi, fel y'i nodir yn y Cyd-ddatganiad rhwng Cymru ac Iwerddon, er mwyn cael mwy o effaith ar ddinasyddion.[56]

**62.** Clywsom gan y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu llofnodi Cyd-ddatganiad newydd gyda Baden-Württemberg yn yr Almaen. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Mae'r fframwaith Datganiad ar y Cyd yn cynnig model y gallwn ei ddefnyddio mewn mannau eraill ond ni ddylai cytundebau rhyngwladol gael eu cyfyngu gan ddull gweithredu o'r fath ac mae ffyrdd eraill o weithio yn fwy hirsefydlog ac efallai y byddant yn fwy priodol mewn amgylchiadau gwahanol. Mae gan wahanol lefydd wahanol ddiwylliannau a ffyrdd o weithio a'r peth pwysicaf i mi yw nid ein bod ni'n llofnodi cytundeb neu fod ein cytundebau yn dilyn yr un patrwm – ond y gweithredu, y cydweithio, y rhwydweithiau cynaliadwy sy'n deillio o'r rhain."*[57]

## Ein barn ni

**63.** Cawsom ein calonogi i dderbyn tystiolaeth o amryw o enghreifftiau o gydweithredu trawsffiniol cadarnhaol ac effeithiol rhwng y ddwy lywodraeth a sefydliadau amrywiol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi rhai materion allweddol yn ymwneud ag ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon lle mae cyfleoedd i wella. Credwn y byddai'r gwelliannau hyn yn adlewyrchu statws arbennig y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon yn well. Byddai hefyd yn cynyddu atebolrwydd a thryloywder Llywodraeth Cymru, ac yn cynorthwyo'r Senedd, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd i ddeall yn well weithgarwch Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'i pherthynas ag Iwerddon.

### Dealltwriaeth o ymagwedd strategaethau presennol

**64.** Er bod llawer o agweddau cadarnhaol ar waith presennol Llywodraeth Cymru ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, canfuom amryw o strategaethau a chynlluniau nad ydynt yn cael eu cyflwyno na'u cydgysylltu mewn

[56] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[57] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]

un lle. Roedd hyn yn rhwystr i ni o ran nodi ymagwedd Llywodraeth Cymru a'i deall yn llawn. Credwn fod hyn hefyd yn methu â darparu un pwynt mynediad i unrhyw un sy'n ceisio gwybodaeth am ei hymagwedd at gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

**65.** Fel y cyfryw, credwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud anghymwynas â'i hun drwy beidio â chasglu a chyfathrebu'r gwaith hwn mewn ffordd gydlynol. Byddai cyflwyno hyn mewn modd cliriach yn ein cynorthwyo ni, a rhanddeiliaid eraill, i ddeall cyfeiriad strategol ymdrechion Llywodraeth Cymru i gefnogi a chynyddu lefelau cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu amlygrwydd y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar ei gwefan drwy ddwyn ynghyd ei strategaethau fel y maent yn berthnasol i Iwerddon mewn un lle, i gynnwys Fframwaith Môr Iwerddon, y Strategaeth Ryngwladol, y Cyd-ddatganiad, a gwybodaeth am rôl swyddfa Dulyn, erbyn diwedd Chwefror 2024. Dylid hefyd roi esboniadau clir o'r ffordd y mae pob llinyn yn berthnasol i'r lleill, a sut mae hyn yn cael ei gydlynu.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro rolau a chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yng Nghymru a'i swyddfa yn Nulyn, gan gynnwys pwy sy'n gyfrifol am gydgysylltu strategaethau Cymru-Iwerddon, pennu amcanion clir a dangosyddion perfformiad allweddol.

## Ymwybyddiaeth a chyfranogiad

**66.** Gwelsom fod ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r Cyd-ddatganiad yn gymysg. I'r rhai sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r Cyd-ddatganiad, roedd yn amlwg bod eu gwaith yn cael effaith gadarnhaol ac roedd llawer eisiau gwneud mwy.

**67.** Fodd bynnag, clywsom weithiau nad oedd rhai sefydliadau allweddol yn ymwneud â'r gwaith hwn. Er mwyn sicrhau na chollir cyfleoedd i gydweithio, yn ein barn ni, mae angen i Lywodraeth Cymru wella ymwybyddiaeth o'i gwaith ar fyrder a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws ei strategaethau Cymru-Iwerddon i randdeiliaid perthnasol yng Nghymru.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys unigolion perthnasol sy'n arbenigo mewn cymdeithas sifil (gan gynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg) yn y gwaith y bydd yn ei wneud mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol ac esbonio sut y caiff hyn ei wneud yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ei gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'i strategaethau Cymru-Iwerddon ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor.

## Monitro cynnydd ac adrodd

**68.** Rydym yn nodi nad oes unrhyw ofynion adrodd penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, naill ai i'r Senedd nac i'r Pwyllgor hwn. Nid oes ychwaith unrhyw ddangosyddion perfformiad ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Cyd-ddatganiad. Roedd hyn yn rhwystr i'r Pwyllgor wrth benderfynu ar gynnydd tuag at gyflawni'r Cyd-ddatganiad, ac wrth fesur ei lwyddiant. Heb fetrigau allweddol, monitro ac adrodd rheolaidd, nid oes unrhyw beth a all ddangos neu fod yn sail i'r gwaith cadarnhaol a buddiol sydd yn sicr yn cael ei wneud ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

**69.** Yn ogystal, canfuom mai ychydig o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am Fforwm Iwerddon-Cymru. Er enghraifft, ni chyhoeddir agendâu cyfarfodydd, cofnodion na manylion y rhai sy'n bresennol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru lunio adroddiad blynyddol ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n nodi'r holl weithgarwch ar draws ei strategaethau gwahanol ac unrhyw weithgarwch ychwanegol nad yw'n rhan o strategaeth. Dylai hyn ddangos sut mae gweithgarwch rhwng Cymru ac Iwerddon ar draws ei strategaethau gwahanol yn cael ei gydgysylltu. Dylai'r adroddiad gynnwys dangosyddion perfformiad, canlyniadau tystiolaeth a chyrhaeddiad, a dylai werthuso cynnydd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Fforwm Iwerddon-Cymru gynhyrchu adroddiadau gweithgaredd blynyddol, sy'n monitro cynnydd, yn crynhoi ei gyfarfodydd ac yn nodi'r camau nesaf. Dylai'r adroddiadau helpu i nodi'n well feysydd ar gyfer cymorth wedi'i dargedu yn y dyfodol a dylid eu cwblhau ar ôl cyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Hydref 2023.

**Argymhelliad 9.** Dylai Fforwm Iwerddon-Cymru wella tryloywder drwy gyhoeddi agendâu cyfarfodydd, cofnodion a manylion presenoldeb o'r cyfarfod nesaf ymlaen.

## Ymgysylltiad dwyochrog

**70.** Rydym yn croesawu'r ymagwedd gyffredinol a fabwysiadwyd gan y llywodraethau at eu hymgysylltiad dwyochrog. Mae'n amlwg bod y gwaith sy'n

digwydd ym mhob maes o fywyd cyhoeddus gan gymdeithas sifil a chyrff cyhoeddus (fel Urdd Gobaith Cymru ac Amgueddfa Cymru) yn helpu i feithrin perthynas gref.

**71.** Yn yr un modd, mae'r gwaith rhynglywodraethol a ddisgrifiwyd gan y Prif Weinidog a'r Conswl Cyffredinol yn bwysig. Credwn fod yr ymgysylltu rheolaidd drwy Fforwm Iwerddon-Cymru, yn ogystal â chyfnewidiadau eraill, yn darparu deialog reolaidd hanfodol rhwng y ddwy lywodraeth. Heb aelodaeth y DU o'r UE, mae'r ymgysylltu hwn yn bwysicach nag erioed os yw'r berthynas agos rhwng Cymru ac Iwerddon am barhau.

**72.** Rydym hefyd yn croesawu'r sylwadau a wnaed gan y Prif Weinidog ynghylch y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, sef ei fod yn gweithio'n dda pan fydd yn gweithio. Credwn fod angen adeiladu ar waith y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn absenoldeb aelodaeth o'r UE a hoffem ddeall yn well farn Llywodraeth Cymru ar sut y gellid gwella'r ymgysylltu hyn. Credwn y gallai hyn fynd peth o'r ffordd i adnewyddu a chryfhau cysylltiadau Prydeinig-Gwyddelig ac, yn ei dro, arwain at gydweithredu a pherthynas waith agosach rhwng ei aelodau.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Prif Weinidog roi rhagor o fanylion am sut yr hoffai Llywodraeth Cymru weld y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn cael ei wella, a dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Lywodraeth y DU ystyried y cynigion hyn.

## Glasbrint addas?

**73.** Rydym yn cefnogi'r Cyd-ddatganiad fel glasbrint ar gyfer ymagwedd Llywodraeth Cymru at gysylltiadau rhyngwladol yn y dyfodol, ar yr amod yr eir i'r afael â'r materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn cymeradwyo argymhellion rhanddeiliaid ar gyfer ffocws strategol mwy hirdymor ar berthnasoedd rhyngwladol ac yn cydnabod sylwadau'r Prif Weinidog ar yr angen am hyblygrwydd, fel y nodir ym mharagraff 62 uchod.

**Argymhelliad 11.** Lle mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu ymagwedd debyg at berthnasoedd rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth, dylai gynnwys canfyddiadau'r adroddiad hwn o'r cychwyn cyntaf.

# 4. Cyfleoedd ac uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

## Meysydd blaenoriaeth y tu hwnt i 2025

**74.** Mae'r Cyd-ddatganiad yn amlinellu nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer llywodraethau Cymru ac Iwerddon rhwng 2021 a 2025. Er ei bod yn ddwy flynedd i ffwrdd, rydym yn ymwybodol o nifer o feysydd blaenoriaeth sy'n dod i'r amlwg ar gyfer cydweithredu y tu hwnt i 2025.

**75.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym am eu blaenoriaethau ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Gwyddorau bywyd, a gefnogwyd gan CALIN;
- Iechyd, a gefnogwyd gan Gyngor Sir Penfro a Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Iwerddon;
- Newid hinsawdd, a gefnogwyd gan sawl rhanddeiliad, gan gynnwys Prosiect CHERISH, Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon a Swyddfa Datblygu Morol Iwerddon (IMDO).
- Ynni adnewyddadwy, a gefnogwyd gan Gyngor Sir Penfro a Siambrau Cymru, a ddywedodd ei fod yn hanfodol[58] bod unrhyw fuddion, elw ac ynni a gynhyrchir yn aros yn Iwerddon a Chymru.

**76.** Roeddem hefyd yn ymwybodol o nifer o feysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer cydweithredu yr ydym yn eu trafod o dan yr is-benawdau isod.

## Ieithoedd

**77.** Un maes o ddiddordeb cyffredin yw ieithoedd, gyda'r Gymraeg a'r Wyddeleg yn cael eu nodi'n gyson gan randdeiliaid fel maes allweddol o brofiad a dysgu a rennir sy'n unigryw i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

**78.** Rhoddodd Urdd Gobaith Cymru lawer o enghreifftiau i ni o fanteision y cydweithredu sy'n digwydd rhwng Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys ei fod wedi datblygu balchder rhyngwladol yn statws ieithoedd lleiafrifol ymhlith pobl ifanc ac wedi helpu i normaleiddio dwyieithrwydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae

[58] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 145

ei waith hefyd wedi creu model o gydweithio rhwng yr Urdd ac adran Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru.[59]

**79.** Yn ogystal, disgrifiodd Urdd Gobaith Cymru ei brosiect cyd-gynhyrchu â Coláiste Lurgan lle mae pobl ifanc o Gymru ac Iwerddon yn hyrwyddo'r ddwy iaith drwy gyd-gynhyrchu fideos o ganeuon poblogaidd yn Gymraeg a Gwyddeleg ar-lein. Roedd hyn yn cynnwys y gân Gymraeg gyntaf i gael ei chwarae filiwn o weithiau ar wasanaeth ffrydio cerddoriaeth Spotify.[60] Dywedodd Coláiste Lurgan ei fod yn genfigennus o Gymru a bod y berchnogaeth sydd gan Gymry ifanc o'r Gymraeg yn wych i'w weld.[61]

**80.** Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y gall cysylltiadau ag Iwerddon gryfhau polisi iaith yng Nghymru ac y gall dysgu ar y cyd olygu y bydd camgymeriadau yn cael eu hosgoi. Mae'n gweithio gyda chymheiriaid yn Iwerddon mewn dau faes blaenoriaeth: yn gyntaf i amddiffyn a hyrwyddo hawliau iaith; ac yn ail ar safoni, diogelu a hyrwyddo enwau lleoedd.[62]

**81.** Eglurodd y Comisiynydd y gwahanol gyfundrefnau ar gyfer diogelu enwau lleoedd yng Nghymru ac Iwerddon. Dywedodd y Comisiynydd fod gan Iwerddon draddodiad i fod yn eiddigeddus ohono oherwydd mae ei Chomisiynydd yn pennu enwau lleoedd mewn rheoliadau, lle nad oes gan argymhellion Comisiynydd y Gymraeg unrhyw rym statudol. Pe bai gan Gymru yr un system, mae'r Comisiynydd o'r farn y byddai'n gweddnewid y sefyllfa bresennol ac yn lleihau ansicrwydd ar lefel awdurdodau lleol o ran yr enwau swyddogol ar leoedd. Mae'r Comisiynydd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru graffu ar ymagwedd Iwerddon fel rhan o'i Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru (sy'n cydnabod yr angen i ddiogelu a hyrwyddo enwau lleoedd yng Nghymru).

**82.** Dywedodd y Comisiynydd wrthym hefyd ei fod wedi bod yn cydweithio â'i gymheiriad yn Iwerddon ers cyn Brexit, ond nad oedd hyn wedi digwydd o dan unrhyw faner swyddogol.[63]

**83.** Dywedodd y Conswl Cyffredinol wrthym:

---

[59] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR03 Urdd Gobaith Cymru [PDF 1MB]
[60] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR03 Urdd Gobaith Cymru [PDF 1MB]
[61] Cofnod o'r Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraffau 16 a 43
[62] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR06 Comisiynydd y Gymraeg [PDF 628MB]
[63] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR06 Comisiynydd y Gymraeg [PDF 628MB]

> *"... the engagement between the two language commissioners has been really useful, and you can see how they've learned from each other on language policy."*[64]

**84.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"... it's not a case of there being one thing that they need to work on together, but that that ongoing dialogue is really helpful for both sides, I hope, because there is a lot we can learn."*[65]

**85.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, darparodd Llywodraeth Cymru restr o feysydd blaenoriaeth yn y dyfodol y tu hwnt i 2025. Fodd bynnag, nid oedd y rhestr yn cynnwys ieithoedd yn benodol[66]. Mae'r Cyd-ddatganiad yn ymrwymo i gynnal ymgynghoriadau blynyddol ar lefel y llywodraeth ar gynllunio a gweithredu polisi iaith.[67]

## Diwylliant a threftadaeth

**86.** Pwysleisiodd tystion bwysigrwydd diwylliant a threftadaeth gyffredin Cymru ac Iwerddon ac roedd y ddwy wlad yn cael eu henwi'n aml fel perthynas ryngwladol agosaf y llall yn hyn o beth. Mae nifer o dystion yn ymwneud yn agos â'r gwaith o sicrhau cydweithrediad strwythuredig rhwng Cymru ac Iwerddon a rhoesant ddealltwriaeth amhrisiadwy i ni o'r berthynas rhwng y ddwy wlad.

**87.** Mae cysylltiadau dwyochrog â chymheiriaid, yn enwedig rhwng Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon yn enghraifft dda o hyn. Llofnododd y ddau sefydliad eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyntaf yn 2019, a adnewyddwyd yn ddiweddarach i nodi'r ymrwymiad parhaus fel yr amlinellwyd yn y Cyd-ddatganiad. Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym y byddai'n dda adeiladu ar y cydweithredu sydd eisoes wedi'i sefydlu o fewn sectorau unigol (fel y

[64] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraff 160
[65] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraff 161
[66] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[67] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 – 1 Mawrth 2021

Celfyddydau, Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd), i ddatblygu cydweithredu ehangach ar draws y sector diwylliannol”.[68]

**88.** Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Iwerddon. Maent hefyd yn gweithio gyda Culture Ireland, y corff sy'n hyrwyddo Iwerddon yn rhyngwladol. Mae'r holl waith hwn yn arwain at gyfnewid o ran gwyliau ac at ddibenion penodol megis cymryd rhan yn yr Eisteddfod Genedlaethol.[69]

## Addysg uwch a symudedd myfyrwyr

**89.** Gwnaethom ystyried tystiolaeth gan y sector addysg uwch. Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym:

> *“I would say that Ireland is an important market. It's not going to be, obviously, as important as our other close geographic neighbour in England but … there are other reasons why working with and through Ireland could be important for us in the future. And of course, in relation to some of the work we have to do to support our language and our culture, there's a lot we can learn from each other… but it's clearly not our primary market.”*[70]

**90.** O ran Brexit a symudedd myfyrwyr, dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym:

> *“In relation to Erasmus, as you know, it's obviously been a significant loss for universities, and I think we've been very pleased that we've been able to set up the Taith programme here in Wales to help support those mobilities. Of course, it can't exactly replicate Erasmus.”*[71]

**91.** At hynny, dywedwyd wrthym fod gwladolion Gwyddelig yn cael eu trin fel myfyrwyr o'r DU at ddibenion ffioedd a chyllid, ac felly effaith gyfyngedig y mae

---

[68] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR02 Amgueddfa Cymru (Saesneg yn unig) [PDF 2MB]
[69] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 188
[70] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 125
[71] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 37

Brexit wedi'i chael ar nifer y myfyrwyr sy'n dod o Iwerddon i Gymru[72]. Eglurodd Addysg Uwch Cymru Brwsel ("WHEB") i ni nad yw'r data ar gyfer rhaglen gyfnewid ryngwladol Llywodraeth Cymru ar gael eto felly nid oes unrhyw eglurder ynghylch symudedd allanol myfyrwyr i Iwerddon. Dywedodd WHEB fod cynnal ac adeiladu ar symudedd myfyrwyr, cydweithio a chyfnewid yn allweddol.[73]

## Cysylltiadau economaidd a masnach

**92.** Er nad yw masnach yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, mae'n amlwg yn biler canolog yn y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon. Datgelodd tystiolaeth a ddaeth i law fod y ffocws lleiaf posibl yn cael ei roi ar y cysylltiadau economaidd a masnach o ran ymagwedd Llywodraeth Cymru at gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon. Roedd hyn yn wahanol iawn i'r meysydd polisi eraill a ystyriwyd gennym, megis diwylliant ac iaith.

**93.** Dywedodd y cerddor, gwneuthurwr ffilmiau a darlledwr, Philip King, wrthym fod masnach yn dilyn lle mae diwylliant yn arwain.[74]

**94.** Dywedodd Siambrau Cymru wrthym fod angen mwy o ymdrech tuag at gysylltiadau economaidd ag Iwerddon:

> *"… from a business perspective, a decent portion of Welsh trade is with Ireland, but there's a great opportunity for there to be more that's done through the Celtic connection and through sectors that would benefit both Ireland and Wales—so, tourism, manufacturing, travel, that kind of thing."*[75]

**95.** Nododd Swyddfa Datblygu Morol Iwerddon y bydd i ddatblygiadau sydd ar ddod oblygiadau pwysig i fasnach rhwng Cymru ac Iwerddon. Dywedasant wrthym am y defnydd o ddigideiddio mewn gwiriadau tollau yn ogystal â datblygu porthladdoedd rhydd. O ran yr olaf, dywedasant nad ydynt yn gyfarwydd â model effeithiol yn dilyn eu profiad o borthladd rhydd Cork.[76] Dywedodd Cyngor Sir Penfro wrthym fod gan fodel rheoli ffiniau masnach newydd disgwyliedig y DU,

[72] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 37
[73] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 39
[74] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[75] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 34
[76] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]

y Model Gweithredu Targed ("TOM"), y potensial i gynyddu trafferthion masnach a fydd â goblygiadau i borthladdoedd Sir Benfro. Dywedodd wrthym y gallai hwn fod yn faes lle gallai cysylltiadau cryfach rhwng Cymru ac Iwerddon helpu i weithredu cynnydd.[77]

## Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

**96.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn cadarnhau bod trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng y ddwy wlad i gydweithredu y tu hwnt i 2025. Dywedodd wrthym:

> *"Mae llawer o'r uchelgeisiau ar gyfer y Datganiad wedi cael sylw ac maent naill ai wedi'u cyflawni neu ar y gweill. Yng nghyfarfodydd diweddar y grŵp llywio*[78]*, rhoddwyd ystyriaeth i ddiwygio neu ymestyn y nodau presennol er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl. Wrth i ni gyrraedd hanner ffordd y Datganiad, mae ystyriaeth gynnar yn cael ei rhoi yn awr i ddatganiad diwygiedig neu ddatganiad yn y dyfodol y gall y ddwy lywodraeth gytuno arno ac ymrwymo i'w gyflawni ar ôl 2025."*[79]

**97.** Fodd bynnag, yn ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod, eglurodd y Prif Weinidog, er gwaethaf yr ystyriaeth gynnar, nad yw trafodaethau wedi dechrau eto gyda Llywodraeth Iwerddon ynghylch adnewyddu'r Cyd-ddatganiad y tu hwnt i 2025.[80] Rhoddodd y Prif Weinidog sicrwydd i ni hefyd, pe bai cytundeb arall, y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn cynnwys rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau fel y mae wedi'i wneud wrth gyflawni'r cynllun".[81]

**98.** Yn ogystal, rhestrodd y Prif Weinidog y meysydd blaenoriaeth a ganlyn.[82]

[77] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR05 Cyngor Sir Penfro [PDF 392KB]
[78] Grŵp llywio yw hwn i fonitro'r ffordd y caiff y Cyd-ddatganiad ei gyflawni, yn cynnwys swyddogion o Lywodraethau Cymru ac Iwerddon.
[79] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[80] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]
[81] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]
[82] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]

- **cysylltiadau addysgol**, gan gynnwys cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar raglen Taith Llywodraeth Cymru yn Iwerddon, ymchwil ar y cyd rhwng prifysgolion a lliniaru'r cysylltiadau a gaiff eu colli o ganlyniad i ddiwedd cyllid yr UE;
- **economaidd**, gan gynnwys ffocws ar y sector ynni adnewyddadwy, cyfleoedd ym Môr Iwerddon, ac ar sicrhau bod masnach rhwng Cymru ac Iwerddon "mor ddidrafferth ag sy'n bosibl mewn perthynas â newidiadau arfaethedig yn y dyfodol" i reoli ffiniau;
- **gwleidyddol**, gan gynnwys Fforwm Cymru-Iwerddon a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae'r Prif Weinidog yn dweud bod yn rhaid i lefel bresennol y cyfarfodydd Gweinidogol "barhau" yn y dyfodol;
- **rhannu polisi**, gan gynnwys secondio swyddog o Lywodraeth Cymru i'r Adran Materion Tramor, yn arbennig i ddysgu am ddull Iwerddon o ymgysylltu â'r rhai sydd ar wasgar, a bod trefniadau mwy tebyg yn cael eu hystyried, yn ogystal â rhannu gwybodaeth adrannol.

**99.** Nododd tystiolaeth y Prif Weinidog hefyd fod y ddwy wlad:

> *"… wedi ymrwymo i flaenoriaethu camau gweithredu sy'n cefnogi'r broses o addasu a lliniaru'r hinsawdd, twf gwyrdd a'r newid i garbon sero net, ac economi gylchol."*[83]

## Cydweithio ar draws deddfwrfeydd

**100.** Mae'r Cyd-ddatganiad yn nodi y bydd y ddwy lywodraeth yn "…dwysáu'r cysylltiadau seneddol trwy gynorthwyo Senedd Cymru a'r Oireachtas i archwilio cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth am heriau cyffredin, fel deddfu ynghylch cynaliadwyedd, polisi iaith a chydraddoldeb".[84]

**101.** Roedd nifer o'r tystion y siaradom â nhw o blaid cryfhau'r cysylltiadau rhwng y Senedd a'r Oireachtas. Yn eu plith mae sefydliadau cymdeithas sifil yn ogystal â swyddogion y llywodraeth a chynrychiolwyr seneddol.

---

[83] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[84] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 – 1 Mawrth 2021

**102.** Yn ystod ein hymweliad â'r Dáil, dywedodd Aelodau o bwyllgorau'r Oireachtas wrthym y byddai'n fuddiol iddynt ddyfnhau'r cysylltiadau rhwng y Senedd a phwyllgorau'r Oireachtas. Trafododd yr aelodau ffyrdd posibl ymlaen, gan gynnwys rhannu tystiolaeth, cyfnewid diweddariadau a chynnal cyswllt rheolaidd[85].

**103.** Fforwm arall ar gyfer cydweithio ar draws deddfwrfeydd yw'r Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ("BIPA"). Sefydlwyd BIPA yn wreiddiol fel Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig ym mis Chwefror 1990 i fod yn ddolen gyswllt rhwng yr Oireachtas a Senedd y DU. Cafodd seneddau datganoledig eu cynnwys o 2001 ynghyd ag Uchel Lys Tynwald a Thaleithiau Guernsey a Jersey. Mabwysiadwyd yr enw BIPA yn 2008.[86]

**104.** Nid yw'r Cyd-ddatganiad yn cyfeirio at BIPA.[87]

**105.** Serch hynny, mae tystiolaeth ysgrifenedig y Conswl Cyffredinol yn cyfeirio at BIPA fel y prif fforwm ar gyfer cysylltiadau seneddol rhwng Cymru ac Iwerddon.[88] Cawsom ein gwahodd gan y Prif Weinidog i rannu ein barn ar gydweithrediad sefydliadol agosach rhwng y seneddau, y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a BIPA. Gofynnodd:

> *"What would it look like? How would it operate? What would the institutional mechanisms be? How would they mesh with what is there already?"*[89]

**106.** Clywsom dystiolaeth lafar hefyd gan Gyd-gadeiryddion BIPA, Karen Bradley AS a Brendan Smith TD. Dywedodd Karen Bradley AS wrthym:

> *"I just can't make it clear enough that continued dialogue and conversations and meetings are vital for all of the nations that are*

[85] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[86] Y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig: Gwybodaeth am y Cynulliad (Saesneg yn unig)
[87] Llywodraeth Cymru: Iwerddon-Cymru Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd 2021 i 2025 – 1 Mawrth 2021
[88] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR07 Conswl Cyffredinol Iwerddon (Saesneg yn unig) [PDF 335KB]
[89] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 10 Mai 2023, paragraff 122

> *represented at BIPA. It's far too easy to forget the implications of what you're talking about in your parliament on others."*[90]

**107.** Dywedodd Brendan Smith TD wrthym:

> *"[W]e need to intensify the parliamentary tier between all the legislatures … Greater parliamentary engagement across these islands will be for the better of all our respective constituents."*[91]

**108.** Roedd y ddau Gyd-gadeirydd BIPA yn cefnogi cydweithredu dyfnach rhwng y Senedd, Oireachtas, a BIPA.

**109.** Cawsom wybod hefyd am ystyriaethau i gynyddu nifer y pwyllgorau BIPA o'r pedwar presennol i chwe phwyllgor.[92]

## Ein barn ni

**110.** Nid oes prinder syniadau ar feysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i 2025. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried bod Brexit wedi adnewyddu ffocws y perthnasoedd a ddatblygwyd yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, mae yna gwestiynau pwysig ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael i berthnasoedd cryf, a byddwn yn mynd i'r afael â hyn ym mhennod nesaf yr adroddiad hwn.

**111.** Mae gan bob ffrwd waith ei rhinweddau ei hun a bydd y perthnasoedd sy'n sail i bob prosiect yn wahanol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu a'i defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl 2025. Yn wir, dylai'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu drwy gasglu tystiolaeth gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru a'u hailgymhwyso i'w chydberthnasau rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth yn y dyfodol.

---

[90] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 3 Mai 2023, paragraff 220
[91] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 3 Mai 2023, paragraffau 183 a 222
[92] Cofnodion y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 3 Mai 2023, paragraff 143

**112.** Erys y ffaith, ar ba ffurf bynnag y gwelir cydweithredu yn y dyfodol, na ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyllid. Mae'n rhaid i'r adnoddau hynny gyfateb i'r uchelgais yn neges a glywsom dro ar ôl tro yn ystod yr ymchwiliad hwn.

**113.** Mae awydd hefyd am ymgysylltu pellach ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon gan randdeiliaid; y rhai sydd eisoes yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y Cyd-ddatganiad a'r rhai sy'n gweithio ar y cyrion. Rydym yn ffyddiog o sicrwydd y Prif Weinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu ac yn cynnwys rhanddeiliaid ar eu blaenoriaethau wrth ddatblygu cydweithredu o 2025 ymlaen.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu a'i defnyddio i lywio penderfyniadau yn y dyfodol ar flaenoriaethau ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl 2025. Dylai'r gwersi hyn gael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru a'u hailgymhwyso i'w chydberthnasau rhyngwladol eraill sy'n cael blaenoriaeth yn y dyfodol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut y bydd y Pwyllgor hwn, y Senedd, cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â chydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon y tu hwnt i 2025.

## Ieithoedd

**114.** Credwn y dylid dathlu'r profiad y mae Cymru ac Iwerddon yn ei rannu o ran ein hieithoedd brodorol a'i archwilio ymhellach. O'r dystiolaeth a glywsom, mae'n amlwg bod rhannu'r profiad hwn yn fater dwy ffordd gwirioneddol. Roedd yn galonogol clywed am y gwaith hanfodol sy'n digwydd i gefnogi a normaleiddio dwyieithrwydd yn ein cymunedau iaith frodorol. Cymeradwywn ymdrechion Urdd Gobaith Cymru a TG Lurgan yn hyn o beth.

**115.** Mae'r cyfleoedd a amlinellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys ar ddiogelu enwau lleoedd, yr un mor bwysig. Edrychwn ymlaen at glywed canlyniadau cynhadledd ryngwladol Cymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith yn 2024 a byddwn yn ystyried elfennau rhyngwladol o waith polisi iaith Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

## Diwylliant a threftadaeth

**116.** Yn ystod ein hymweliad â Dulyn, dywedodd Philip King wrthym fod enaid o unrhyw natur yn ei ddiwylliant. Mae'n amlwg i ni fod gan ddiwylliant a threftadaeth le cryf fel enaid cydweithio rhwng ein dwy genedl. Mae'r enghreifftiau a welsom yn dangos lefel uchel o gydweithredu a mentrau ar y cyd sy'n dangos manteision a chryfder cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon.

Gobeithiwn yn fawr weld y cysylltiadau hyn yn aeddfedu ymhellach dros y blynyddoedd i ddod.

## Cysylltiadau masnach ac economaidd

**117.** Yr argraff a gawsom oedd bod y lefel ymgysylltu, yn enwedig o ran masnach, busnes ac addysg uwch, yn gryfach yn Iwerddon nag yng Nghymru. Gellid priodoli hyn i'r gwahaniaeth o ran ymgysylltu rhwng y ddwy lywodraeth.

**118.** O ystyried pwysigrwydd cysylltiadau masnachu rhwng y ddwy wlad, credwn fod rhai achosion lle y dylai rhanddeiliaid ymwneud mwy â gwaith Llywodraeth Cymru.

**119.** Mae yna nifer o ffactorau gwahanol yn codi ar ôl Brexit a all, yn ein barn ni, gael effaith sylweddol ar gysylltiadau masnachu. Mae hyn yn cynnwys addasu i'r gofynion newydd ar gyfer symud nwyddau o fewn model gweithredu ffiniau'r DU, Fframwaith Windsor, a statws porthladd rhydd ar gyfer porthladdoedd yng Nghymru.

**Argymhelliad 14.** Gan ei bod yn ymddangos nad oes modd gwahanu polisi cysylltiadau rhyngwladol oddi wrth bolisi masnach o ran y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon, dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y cânt eu cydgysylltu ar draws gwaith y llywodraeth.

## Cysylltiadau rhwng y Senedd a'r Oireachtas

**120.** Credwn fod gwerth sylweddol mewn dyfnhau cysylltiadau seneddol rhwng y Senedd a'r Oireachtas, yn ogystal â thrwy BIPA. Rydym yn croesawu cefnogaeth tystion i'r ymchwiliad hwn i'r Senedd a'r Oireachtas gydweithio'n agosach, gan gynnwys gweithio ar y cyd lle bo modd.

**121.** Fel Pwyllgor, mae gennym yr awydd a'r uchelgais i weld y Pwyllgor hwn yn arwain y ffordd wrth lunio'r math hwn o waith i Gymru. Fel cam cyntaf, byddwn yn adolygu ein ffyrdd o weithio er mwyn ystyried sut y gallwn gynnwys gwaith y pwyllgorau cyfatebol yn Nhai'r Oireachtas yn ein gwaith, ac i'r gwrthwyneb. Gallai gwaith o'r fath gynnwys, ond ni ddylid ei gyfyngu i'r canlynol:

- Gwaith ar bolisi iaith a chysylltiadau rhyngwladol.
- Archwilio ffurfioli gwaith ar y cyd â'n pwyllgorau cyfatebol.
- Rhannu ein hadroddiadau, gan gynnwys copi o'r adroddiad hwn, a chadw mewn cysylltiad yn rheolaidd.

**122.** Yn ogystal, rydym yn ymrwymo i adolygu sut y gall y Pwyllgor hwn arwain a hyrwyddo gwaith seneddol Cymru-Iwerddon ar draws y Senedd ei hun. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut y gallai llywodraethau Cymru ac Iwerddon gefnogi cydweithio'r Senedd â'r Oireachtas yn y dyfodol.

**123.** Ers Brexit, mae rôl BIPA wedi cymryd arwyddocâd newydd fel y prif fforwm ar gyfer cysylltiadau seneddol Cymru-Iwerddon. Rydym yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Cyd-gadeiryddion BIPA wrthym, sef bod yn rhaid ailddyblu ymdrechion i gadw'r cysylltiadau seneddol hyn ar ôl Brexit.

**124.** Credwn fod yn rhaid ystyried rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am waith BIPA er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i Aelodau gael eu cynnwys a'u deall. Gallai hyn gynnwys cynrychiolwyr BIPA y Senedd yn adrodd yn ôl i'r Senedd ar eu gwaith drwy adroddiadau o osodwyd, fel y gwneir gan gynrychiolwyr y Senedd sy'n mynychu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU-UE ("PPA"). Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ffurfioli perthnasoedd rhwng cynrychiolwyr BIPA y Senedd a'r Pwyllgor hwn. Fel rhan o hyn, byddwn yn rhannu'r adroddiad hwn ar yr ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon â BIPA ac yn nodi adroddiadau BIPA yn ein cyfarfodydd Pwyllgor yn y dyfodol.

**125.** Yn olaf, gyda'r posibilrwydd y gall BIPA gynyddu nifer y pwyllgorau sydd ganddo, ac o ystyried pwysigrwydd y fforwm hwn, dylid ystyried sut y mae Comisiwn y Senedd yn paratoi ar ei gyfer. Hoffem ddeall yn well farn Comisiwn y Senedd ar y mater hwn. Fel y cyfryw, hoffem iddo adrodd yn ôl i ni gydag amlinelliad o'i farn ar y paratoadau ar gyfer cynyddu nifer y pwyllgorau sydd gan BIPA yn ogystal ag ystyriaethau ar gynyddu nifer y cynrychiolwyr Senedd sy'n mynychu BIPA, a llenwi'r sedd wag bresennol.

**Argymhelliad 15.** Dylai Comisiwn y Senedd roi ei farn i'r Pwyllgor ar y posibilrwydd y bydd cynnydd yn nifer y pwyllgorau sydd gan BIPA, yn ogystal â'i ystyriaethau ar gynyddu nifer cynrychiolwyr y Senedd a llenwi'r sedd wag.

# 5. Adnoddau

**126.** Mae darparu adnoddau ar gyfer gwaith ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol yn mynd i fod yn heriol, yn enwedig wrth i gyllid yr UE yng Nghymru ddod i ben. Roedd y dystiolaeth a gawsom yn dangos materion clir o ran adnoddau a chapasiti ar gyfer y dyfodol. Mae'r heriau hyn yn cael eu cydnabod gan y Prif Weinidog:

> *"the significant and key challenge to the delivery of the Statement remains around funding. There have been strong, tangible collaborative projects and programmes delivered through Interreg funding which will be withdrawn in 2023 [...] with no funding alternative in place."*[93]

## Diwedd cyllid yr UE yng Nghymru

**127.** Soniodd nifer o dystion am effaith diwedd cyllid yr UE.

**128.** Ni wnaeth Llywodraeth y DU gais i'r DU fod yn rhan o raglenni INTERREG 2021-2027 yr UE ar ôl Brexit, ac eithrio rhaglen PEACE Plus rhwng y DU ac Iwerddon. Dywed Llywodraeth Cymru fod y penderfyniad hwn yn "...gryn fygythiad i gynaliadwyedd llawer o rwydweithiau a phrosiectau yn ardal Môr Iwerddon" a bod "...llawer iawn yn llai o bosibilrwydd y bydd prosiectau cydweithredu arloesol newydd yn dod i'r amlwg"[94]. Hefyd, disgrifiodd y Conswl Cyffredinol ddiwedd cyllid INTERREG fel cyfnod heriol.[95]

**129.** Cawsom ein rhybuddio am risgiau i gydweithrediad parhaus a risg sylweddol y byddai yna fwlch ar ôl i'r cyllid ddod i ben[96] oherwydd ansicrwydd ariannol. Dywedodd UCD wrthym fod cysylltiad y DU â Horizon Europe yn allweddol ar

[93] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[94] Llywodraeth Cymru: Fframwaith Môr Iwerddon: canllawiau – 21 Chwefror 2023
[94] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 30 Mawrth 2023, paragraff 165
[96] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR08 CALIN (Saesneg yn unig) [PDF 628KB]

gyfer y sectorau addysg uwch ac ymchwil[97] – safbwynt a rannwyd gan y sector addysg uwch yng Nghymru.[98]

**130.** Clywsom bryderon hefyd gan nifer o brosiectau rhaglen INTERREG, gan gynnwys y rhai sy'n cynnal ymchwil gwyddorau bywyd a newid yn yr hinsawdd a'r rhai sy'n gweithio yn y sectorau diwylliant, treftadaeth a thwristiaeth. Dywedodd CALIN wrthym ei fod yn ceisio datblygu ffordd gynaliadwy ymlaen[99]. Dywedodd WHEB wrthym:

> *"Mae'r Llywodraeth wedi bod yn weithgar yn gwneud cymaint ag y gallan nhw… Dydy o ddim yn cymryd lle INTERREG o gwbl o ran faint o fuddsoddiad sydd yn gallu cael ei roi i mewn iddo fo. Felly mi fydd yna gwestiwn mawr ynglŷn â beth fydd yr ariannu yn y dyfodol."*[100]

**131.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad, dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod trafodaethau'n parhau i gefnogi cydweithio rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol ond y byddai maint y cyllid hwn ar raddfa lawer is.[101]

## Cyllid ar ôl Brexit

**132.** Mae Cymru Ystwyth, a lansiwyd ym mis Chwefror 2023, yn fenter £150,000 gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru yn gallu adeiladu partneriaethau a chydweithrediad economaidd ar draws Môr Iwerddon a rhanbarthau'r UE. Ei nod yw sicrhau cydweithrediad economaidd trawsffiniol a rhyngwladol pan fydd buddiannau cyffredin ac mae'n cynnwys cynlluniau grant i gefnogi gweithgarwch ar draws themâu a sectorau.[102]

**133.** Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod Cymru Ystwyth yn canolbwyntio ar sefydlu cysylltiadau newydd yn hytrach na chadw'r rhai presennol. Dywedodd eraill, gan gynnwys WHEB, wrthym fod Cymru Ystwyth yn cael ei groesawu, ond ni

---

[97] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[98] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraffau 42 a 158
[99] Ymateb i'r ymgynghoriad: WIR08 CALIN (Saesneg yn unig) [PDF 628KB]
[100] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 42
[100] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[102] Llywodraeth Cymru: Cymru Ystwyth – 13 Medi 2023

all gymryd lle cyllid yr UE o ran swm y cymorth ariannol a'r cwmpas sectoraidd[103]. Mewn cymhariaeth, cafodd Prosiect CHERISH yn unig €4.9 miliwn o gyllid INTERREG o dan raglen cyn Brexit Iwerddon-Cymru 2014-2020[104]. Dywedodd UCD wrth y Pwyllgor ei fod wedi derbyn €46 miliwn gan raglenni Horizon Europe hyd yn hyn (Ebrill 2023)[105].

**134.** Yn ogystal, dywedodd rhai wrthym fod Cymru Ystwyth yn canolbwyntio gormod ar y byd academaidd a busnes. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau treftadaeth[106] ac amgueddfeydd yn colli allan[107]. Dadleuodd y Prosiect CHERISH fod sefydliadau treftadaeth mewn gwell sefyllfa i ddylanwadu, diogelu a hyrwyddo[108].

## Horizon

**135.** Dywedodd llawer o dystion, yn enwedig y rhai o'r sector addysg uwch, wrthym fod cysylltiad y DU â Horizon yn allweddol i gydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol. Dywedodd y Prif Weinidog yn ei dystiolaeth ysgrifenedig na fydd cysylltiad yn cael ei sicrhau yn "y dyfodol agos", ac mae rhanddeiliaid yn rhybuddio y bydd hyn yn arwain at fwlch ariannu.[109]

**136.** Roedd Prifysgolion Cymru yn glir:

> *"… the thing that's going to make the most difference will be the Horizon association, and there's no getting away from that. That's the thing that will be absolutely most valuable to us."*[110]

---

[103] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 42
[104] Tystiolaeth gan Brosiect Cherish: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig) – 3 Mai 2023
[105] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[106] Tystiolaeth gan Brosiect Cherish: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig) – 3 Mai 2023
[107] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[108] Tystiolaeth gan Brosiect Cherish: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig) – 3 Mai 2023
[109] Tystiolaeth gan y Prif Weinidog: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon – 10 Mai 2023 [PDF 248KB]
[110] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 158

**137.** Cawsom wybod fod enghreifftiau o bobl yn tynnu'n ôl o weithgarwch Cymreig-Gwyddelig[111]. Cawsom wybod hefyd fod 85 y cant o brosiectau Cymreig-Gwyddelig UCD yn cael eu hariannu gan raglenni Ewropeaidd, gan gynnwys Interreg a Rhaglenni Ymchwil ac Arloesi yr UE, a bod y gweithgareddau cydweithredol hyn, sydd wedi cael eu datblygu dros amser, mewn perygl pe na bai ffynonellau newydd o gyllid ar gael i'w cynnal ar gyfer y dyfodol[112]. Dywedodd Prosiect CHERISH wrthym eu bod yn dal i fod yn bartner mewn rhai cynigion i Horizon, ond:

> *"… anecdotally, we've been told that if the UK is involved in a Horizon project it won't get funding. So, we're almost a liability to those organisations…I don't know whether that's true or not, I really don't, but we have not succeeded so far in achieving the funding for a couple of climate change and coastal heritage projects that we've gone for where we thought we had the expertise to succeed."*[113]

**138.** Yn ysgrifenedig yn dilyn ein sesiynau tystiolaeth, dywedodd y Prif Weinidog wrthym, ar ôl i Fframwaith Windsor ddod i ben:

> *"It is now encouraging that the political blockages appear to have been put to one side and that discussions are underway with a view to finalising association. However, it is impossible to predict how long the negotiations will take and whether they will conclude with association… In case association is not secured in the short term, thought will have to turn to making use of the budget allocated to Horizon Europe this financial year. We see association as a win-win and all sides need to keep their eye on the long term, not scoring short term financial gains."*[114]

[111] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 158
[112] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]
[113] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 3 Mai 2023, paragraff 41
[114] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]

**139.** Ar 7 Medi 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb ar gysylltiad y DU â Horizon.[115] Cyhoeddwyd hyn ar ôl i ni orffen ystyried y dystiolaeth a gawsom.

## PEACE Plus

**140.** Awgrymodd rhai tystion wrthym y gallai rhaglen PEACE Plus gynnig cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl Brexit ac y dylid archwilio cyfranogiad Cymru.

**141.** Dywedodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrthym fod dyhead i weithio ar y cyd ar heddwch gyda chymheiriaid yn Iwerddon.[116] Dywedodd Urdd Gobaith Cymru wrthym fod eu gwaith partneriaeth yn ddi-fin, ac er bod dyhead i weithio ar hyn ymhellach, efallai y byddai'n dibynnu ar adnoddau.[117]

**142.** Yn ddiweddar, gwnaethom hefyd ystyried y cytundeb ariannu rhwng y DU, Iwerddon a'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer PEACE Plus tan 2027[118]. Gwnaethom ofyn i'r Prif Weinidog am hyn yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gydag ef. Dywedodd wrthym:

> *The Programme's primary aim is (of course), to support peace and prosperity in Northern Ireland and the border counties of Ireland, however there is sufficient flexibility within the Programme to enable stakeholders outside the immediate eligible area to join North-South projects where there is demonstrable added value in doing so… Partners in Wales are being kept informed of potential opportunities to engage with PEACE Plus and provided with advice, guidance and support through Agile Cymru.*[119]

---

[115] Llywodraeth y DU: Joint Statement by the European Commission and the UK Government on the UK's association to Horizon Europe and Copernicus (Saesneg yn unig) – 7 Medi 2023

[116] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 308

[117] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 22 Mawrth 2023, paragraff 310

[118] Llywodraeth y DU: UK/Ireland/EC: Financing Agreement on the PEACE PLUS Programme 2021-2027 [MS No.2/2023] (Saesneg yn unig) – Mawrth 2023

[119] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon - 6 Gorffennaf 2023 [PDF 177KB]

## Ein barn ni

**143.** O ystyried pwysau'r dystiolaeth a ddarparwyd i ni sy'n dangos pa mor ddibynnol yw llawer o fentrau, prosiectau a pherthnasoedd ar gyllid, ni allwn ond dod i'r casgliad ei fod yn hollbwysig i ddyfodol cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon ar ôl Brexit. Yn anffodus, bydd rhai prosiectau yn dod i ben pan ddaw'r cyllid trawsffiniol i ben. O ystyried hyn, credwn ei bod yn hollbwysig bod llywodraethau Cymru ac Iwerddon yn ystyried ar fyrder y ffordd orau o gefnogi cysylltiadau parhaus rhwng Cymru ac Iwerddon a chysylltiadau rhyngddynt yn y dyfodol.

**144.** Fe'n sicrhawyd o glywed sylwadau a nododd  fod diddordeb o hyd mewn cyfleoedd i gydweithio, er bod rhai o'r prosiectau a ariannwyd gan yr UE wedi dod i ben[120]. Serch hynny, credwn fod risg wirioneddol i randdeiliaid, arbenigedd ac ymchwil yng Nghymru os na fydd cyllid ac adnoddau ar gael yn y dyfodol – o ran cadw cynifer o'r enillion â phosibl ac o ran hybu uchelgeisiau'r ddwy lywodraeth i gydweithredu mewn meysydd newydd.

**145.** Rydym yn cytuno â llawer o dystion yr ymchwiliad a nododd y gall llywodraethau chwarae rhan hollbwysig yn y dirwedd cydweithredu rhwng Cymru ac Iwerddon yn y dyfodol, ac y dylent wneud hynny, ond ar yr un pryd, rydym yn pryderu bod y Prif Weinidog wedi dweud y bydd llawer llai o gyllid ar gael ar ôl gadael yr UE. Fel y cyfryw, rydym yn galw ar lywodraethau Cymru ac Iwerddon i ymrwymo cyllid i'w huchelgeisiau cyffredin y tu hwnt i 2025. Byddai cam o'r fath yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid ar y ddwy ochr i Fôr Iwerddon.

**146.** Dylid cymhwyso eglurder o'r fath hefyd i fentrau ariannu presennol Llywodraeth Cymru megis Cymru Ystwyth, lle ceir diffyg gwybodaeth ac eglurder. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn glir ac yn dryloyw mai cyllid ar gyfer datblygu cysylltiadau newydd yw hwn yn hytrach na chadw'r rhai presennol.

**Argymhelliad 16.** Dylai llywodraethau Cymru ac Iwerddon ymrwymo cyllid i'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n gymesur â'u huchelgais y tu hwnt i 2025 yn ddi-oed, i roi sicrwydd i randdeiliaid ac i sicrhau y bydd cyn lleied o gostau cyfleoedd â phosibl.

[120] Gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn Iwerddon – Hydref 2023 [PDF 160KB]

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am Cymru Ystwyth, gan gynnwys ei ffocws ar ddatblygu cysylltiadau newydd yn hytrach na chadw'r rhai presennol a chynnwys rhanddeiliaid.

**147.** O ystyried bod disgwyl i brosiectau INTERREG ddod i ben yr haf hwn, byddwn yn ystyried adolygu adroddiadau terfynol y prosiectau hyn, fel yr awgrymwyd gan dystion o brosiect CHERISH. Wrth wneud hyn, rydym yn gobeithio gallu canfod eu heffaith ar y cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **22 Mawrth 2023** | **Oliver Carpenter, Rheolwr Polisi** Siambrau Cymru<br>**Berwyn Davies, Pennaeth Swyddfa,** Addysg Uwch Cymru Brwsel<br>**Amanda Wilkinson, Cadeirydd,** Prifysgolion Cymru<br>**Eluned Hâf, Pennaeth,** Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br>**Mali Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhyngwladol,** Urdd Gobaith Cymru |
| **30 Mawrth 2023** | **Mícheál Ó Foighil, Bainisteoir Lurgan,** Coláiste Lurgan<br>**Lowri W. Williams, Cyfarwyddwr Strategol,** Comisiynydd y Gymraeg<br>**Denise McQuade,** Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghaerdydd<br>**Gwyn Evans, Rheolwr Ariannu Allanol,** Cyngor Sir Penfro<br>**Steven Conlan, Athro Bioleg Foleciwlaidd a Chellog,** Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe |
| **3 Mai 2023** | **Christopher Catling, Prif Weithredwr,** Prosiect Cherish<br>**Clare Lancaster, Rheolwr Prosiect,** Prosiect Cherish |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Y Gwir Anrh Karen Bradley AS, Cyd-gadeirydd**, Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon<br>**Brendan Smith TD, Cyd-gadeirydd**, Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon |
| **10 Mai 2023** | **Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru** Llywodraeth Cymru<br>**Andrew Gwatkin, Cyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach** Llywodraeth Cymru<br>**Paula Walsh – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cysylltiadau Rhyngwladol** Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **WIR01** | Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| **WIR02** | Amgueddfa Cymru |
| **WIR03** | Urdd Gobaith Cymru |
| **WIR04** | Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth |
| **WIR05** | Cyngor Sir Penfro |
| **WIR06** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **WIR07** | Conswl Cyffredinol Iwerddon |
| **WIR08** | CALIN |
| **WIR09** | CUPHAT |
| **WIR10** | Prifysgolion Cymru |
| **WIR11** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| **WIR12** | Sefydliad Iechyd y Cyhoedd |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| **Llythyr gan y Prif Weinidog** [PDF 177KB] | 6 Gorffennaf 2023 |
| **Llythyr i Goleg y Drindod Dulyn (Saesneg yn unig)** [PDF 6MB] | 29 Mehefin 2023 |
| **Tystiolaeth gan Goleg y Drindod Dulyn: The language communities as active partners in technology provisions: the Irish ABAIR experience (Saesneg yn unig)** [PDF 283KB] | 29 Mehefin 2023 |

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| **Tystiolaeth gan Goleg y Drindod Dulyn: Digital Plan for the Irish Language Speech and Language Technologies 2023-2027 (Saesneg yn unig)** [PDF 261KB] | 29 Mehefin 2023 |
| **Llythyr at y Prif Weinidog: Yn dilyn sesiwn dystiolaeth weinidogol** (PDF 277KB) | 7 Mehefin 2023 |
| **Llythyr gan y Prif Weinidog** (PDF 161KB) | 24 Mai 2023 |
| **Tystiolaeth gan y Prif Weinidog** (PDF 160KB) | 10 Mai 2023 |
| **Tystiolaeth gan brosiect Cherish** (PDF 455KB) | 3 Mai 2023 |
| **Tystiolaeth ychwanegol gan Sefydliad Iechyd y Cyhoedd** (PDF 183KB) | 3 Mai 2023 |
| **Tystiolaeth gan Gyngor Sir Penfro** (PDF 312KB) | 30 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan CALIN** (PDF 389KB) | 30 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg** (PDF 601KB) | 30 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Gonswl Cyffredinol Iwerddon** (PDF 335KB) | 30 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru** (PDF 696KB) | 22 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Urdd Gobaith Cymru** (PDF 1MB) | 22 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru** (PDF 2MB) | 22 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru (Wedi'i chyfieithu'n fewnol)** (PDF 230KB) | 22 Mawrth 2023 |
| **Tystiolaeth gan Prifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel** (PDF 399KB) | 22 Mawrth 2023 |